POLISI RHODDION

Adolygwyd	Cymeradwywyd	Mabwysiadwyd
03/03/2026	20/05/2026 Rhif Cofnod: 17/2627	20/05/2026

PWRPAS

1. Mae Cyngor Cymuned y Fali yn derbyn ceisiadau am roddion yn rheolaidd gan amrywiaeth o sefydliadau. Nod y polisi hwn yw annog a chefnogi gweithgareddau a phrosiectau sydd o fudd i drigolion yr ardal.

CYFLWYNIAD

2. Rhodd yw unrhyw daliad a wneir gan y Cyngor o dan ei bwerau statudol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r taliad yn cael ei roi i sefydliad at ddiben penodol sydd er budd ardal y Cyngor, neu ran ohoni, neu ei thrigolion, ac nad yw'n cael ei reoli na'i gweinyddu'n uniongyrchol gan y Cyngor.

3. Gall y Cyngor, yn ôl ei ddisgresiwn, roi rhoddion i sefydliadau dielw a sefydliadau cymunedol. Dim ond i gefnogi mentrau at ddibenion elusennol neu lesol, neu rai sy'n ceisio gwneud lles i eraill yn y gymuned, y gellir darparu cyllid, er enghraifft:

- Darparu gwasanaeth i'r gymuned
- Gwella ansawdd bywyd trigolion
- Gwella cyfleoedd hamdden a/neu chwaraeon
- Gwella'r amgylchedd lleol
- Hyrwyddo'r Gymraeg, treftadaeth a diwylliant
- Hyrwyddo'r gymuned mewn modd cadarnhaol
- Hyrwyddo iechyd a llesiant trigolion lleol

POLISI

4. Bydd Cyngor Cymuned y Fali yn ystyried ceisiadau am roddion gan sefydliadau dielw, grwpiau cymunedol neu sefydliadau elusennol sydd wedi'u lleoli yn y gymuned, neu gan sefydliadau sy'n gallu dangos y bydd y cyllid o fudd sylweddol i drigolion y gymuned.

5. Bydd uchafswm y swm a neilltuir ar gyfer rhoddion ym mhob blwyddyn ariannol yn cael ei gytuno gan y Cyngor llawn fel rhan o'r broses flynyddol o bennu'r gyllideb.

6. Bob blwyddyn, bydd y Cyngor yn cytuno ar uchafswm gwerth rhodd unigol. Mae'r cyllid sydd ar gael wedi'i gyfyngu i uchafswm o **£75** ar gyfer pob cais.

7. Rhaid cyflwyno pob cais am gyllid yn ysgrifenedig a'i anfon at y Clerc drwy e-bost i clerk@valley-community-council.wales erbyn 1 Ionawr bob blwyddyn fan bellaf, er mwyn cael ei ystyried ar gyfer cyllideb y flwyddyn ganlynol. Mae ffurflen gais ar gael yn Atodiad A.

8. Gall y Cyngor gynyddu'r gyllideb a neilltuir ar gyfer rhoi rhoddion os bydd ei sefyllfa ariannol yn newid yn ystod unrhyw flwyddyn.

9. I fod yn gymwys am rodd, rhaid i'r ymgeisydd allu dangos:
   - Bod angen ariannu'r gweithgaredd neu'r prosiect.
   - Y bydd y cyllid o fudd i'r gymuned neu i drigolion y gymuned.
   - Nad yw'r sefydliad yn gwahaniaethu ar sail oedran, hil, lliw croen, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, na chredoau gwleidyddol neu grefyddol.

10. Ni fydd y Cyngor yn ariannu:
    - Unigolion preifat.
    - Pleidiau gwleidyddol.
    - Sefydliadau crefyddol, oni bai y gellir dangos yn glir bod budd i'r gymuned gyfan waeth beth fo credoau crefyddol.
    - Sefydliadau cenedlaethol, oni bai y gellir dangos y bydd y cyllid o fudd sylweddol i drigolion y gymuned.
    - Ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol lle gellir dangos yn glir bod y gweithgaredd yn un brys na ellid bod wedi'i ragweld.
    - Dibenion lle mae dyletswydd statudol ar awdurdod lleol arall neu adran o'r llywodraeth i ddarparu neu ariannu'r gwasanaeth.
    - Ceisiadau sy'n fwy na'r uchafswm rhodd unigol a bennir bob blwyddyn, oni bai y gellir dangos yn glir bod angen cyllid ychwanegol a bod y buddion yn gymesur â'r gost ychwanegol.
    - Ceisiadau ôl-weithredol (am gostau sydd eisoes wedi'u hysgwyddo).

Y BROSES YMGEISIO AC DYFARNU RHODDION

11. Rhaid gwneud unrhyw gais am gyllid gan ddefnyddio'r ffurflen gais yn Atodiad A.

12. Mae nodyn canllaw wedi'i baratoi i helpu ymgeiswyr. Mae hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad D.

13. Gellir cael ffurflenni cais gan y Clerc neu eu lawrlwytho o wefan y Cyngor (pan fydd ar gael).

14. Ar ôl derbyn cais, bydd y Clerc yn ei adolygu ynghyd â'r wybodaeth ategol ac yn cysylltu â'r ymgeisydd os oes unrhyw gwestiynau neu wybodaeth ar goll. Bydd y Clerc hefyd yn cwblhau'r Matrics Gwerthuso yn Atodiad E.

15. Os bydd cyfanswm y ceisiadau yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael, bydd y Clerc yn blaenoriaethu'r ceisiadau cymwys yn gyntaf. Rhoddir blaenoriaeth i geisiadau sy'n cyfrannu fwyaf at flaenoriaethau'r Cyngor ac/neu sy'n dangos yr angen a'r budd mwyaf i'r gymuned neu ei thrigolion.

16. Yna bydd yr holl geisiadau cymwys yn cael eu hystyried gan y Cyngor llawn, ynghyd ag unrhyw argymhellion gan y Clerc, er mwyn penderfynu pa weithgareddau neu brosiectau i'w hariannu.

17. Os yw aelod o'r Cyngor hefyd yn aelod o grŵp neu sefydliad sy'n gwneud cais am gyllid, rhaid iddo ystyried a oes angen datgan buddiant yn unol â'r Côd Ymddygiad.

18. Os oes angen gwybodaeth ychwanegol i asesu neu flaenoriaethu cais yn llawn, gellir gwahodd yr ymgeisydd i gyfarfod â'r Cyngor Llawn i drafod y cais ymhellach cyn gwneud penderfyniad.

19. Bydd pob ymgeisydd yn cael gwybod yn ysgrifenedig am benderfyniad y Cyngor.

20. Bydd pob rhodd yn amodol ar yr ymgeisydd yn derbyn y telerau a'r amodau a nodir yn Atodiad C.

21. Mae penderfyniad y Cyngor ar unrhyw gais yn derfynol ac nid oes hawl i apelio.

22. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gais y mae'n ei ystyried yn amhriodol neu'n groes i amcanion y Cyngor.

23. Ni fydd y Cyngor yn ymrwymo i wariant parhaus oni bai ei fod wedi'i gymeradwyo ymlaen llaw.

24. Dim ond un cais gan bob sefydliad a ganiateir ym mhob blwyddyn ariannol.

25. Nid oes dim yn y polisi hwn yn atal y Cyngor rhag rhoi rhodd i grŵp, sefydliad neu brosiect heb gais ffurfiol os yw'r Cyngor o'r farn y byddai hynny o fudd i'r gymuned neu ei thrigolion, er enghraifft mewn argyfwng annisgwyl.

26. Gall manylion y rhoddion a ddyfernir gael eu cyhoeddi yn unol â gofynion tryloywder y Cyngor a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

CYMERADWYO AC ADOLYGU'R POLISI

27. Cymeradwywyd y polisi hwn yn wreiddiol gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 21/02/2024 (211/2324(2)).

28. Bydd y polisi yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Cyngor llawn fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb.

ATODIAD A

Cyngor Cymuned Y Fali

CAIS AM RODD – FFURFLEN GAIS

CAIS AM RODD – FFURFLEN GAIS

Mae'r ffurflen gais hon yn ymwneud â phrosiectau i'w hystyried ar gyfer cyllid o gyllideb Cyngor Cymuned y Fali 2026-2027.

Darllenwch y telerau ac amodau rhoddion a'r nodyn canllaw sydd ynghlwm cyn cwblhau eich cais (Atodiad D).

Dylid dychwelyd y ffurflen gais wedi'i chwblhau, ynghyd â'r holl ddogfennau ategol perthnasol, at y Clerc erbyn 01/01/2027 fan bellaf.

Cwblhewch bob adran gan ddefnyddio inc du neu'n electronig. Os ydych yn llenwi'r ffurflen â llaw, defnyddiwch daflenni ychwanegol os oes angen.

1. EICH SEFYDLIAD	
Enw'r Sefydliad:	
Enw Cyswllt:	
Rhif ffôn cyswllt:	Cyfeiriad e-bost cyswllt:
Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth:	
Eich rôl yn y sefydliad (e.e. Cadeirydd, Ysgrifennydd, Ymddiriedolwr, ayb.)	
2. MANYLION Y SEFYDLIAD	
Math o sefydliad (e.e. sefydliad gwirfoddol dielw, elusen gofrestredig). Rhowch rif cofrestru os yw'n berthnasol.	
Disgrifiad byr o amcanion eich sefydliad:	
A oes gennych gyfansoddiad neu ddogfen arall sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am eich sefydliad?	☐ OES ☐ NAC OES Os oes, cyflwynwch gopi gyda'ch cais fel dogfen ategol.

3. Y PROSIECT		
Rhowch fanylion am y prosiect, gweithgaredd neu wasanaeth y mae'r cais hwn yn ymwneud ag ef:		
4. MANYLION ARIANNOL		
A ydych chi wedi cynnwys copi o'ch datganiad banc diweddaraf?	☐ DO ☐ NADDO Os na, nodwch y rheswm os gwelwch yn dda.	
Os bydd eich cais yn llwyddiannus, cwblhewch eich manylion banc isod ar gyfer taliad electronig:		
Enw'r Cyfrif:	Côd Didoli:	Rhif y Cyfrif:
DATGANIAD		
Rhaid i'r datganiad hwn gael ei lofnodi gan berson awdurdodedig o'r sefydliad, e.e. Cadeirydd, Swyddog, Ymddiriedolwr, ayb; 1. Rwyf wedi fy awdurdodi i wneud y cais hwn ar ran y sefydliad uchod. 2. Rwyf wedi darllen a nodi Polisi Rhoddion y Cyngor ac yn cytuno i gadw at y telerau a'r amodau os dyfernir rhodd gan y Cyngor. 3. Rwy'n cadarnhau bod yr wybodaeth a roddir yn y cais hwn, ac unrhyw ddogfennau ategol, yn gywir. 4. Rwy'n rhoi caniatâd i'r Cyngor gadw manylion fy sefydliad a'm manylion cyswllt a'u cadw yn unol â chyfnodau cadw'r Cyngor		
Llofnod:	Swydd:	Dyddiad:
I'W GWBLHAU GAN CYNGOR CYMUNED Y FALI YN UNIG Dyddiad Derbyn:		
Dyddiad y cyfarfod pan ystyriwyd y cais:		
Penderfyniad y Cyngor:	Pŵer Deddf Llywodraeth Leol:	
Dyddiad Talu:	Dull Talu:	
Nodiadau:		

Mae'r Cyngor yn datgan y bydd unrhyw wybodaeth bersonol a ddarperir yn cael ei phrosesu yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data. Gellir gweld yr Hysbysiad Preifatrwydd ar wefan y Cyngor neu gellir cael copi ar gais.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi ateb pob cwestiwn ac wedi darparu manylion cyswllt llawn. Gall methiant i wneud hynny olygu na ellir prosesu eich cais.

Anfonwch ffurflenni wedi'u cwblhau at Glerc y Cyngor drwy e-bost i clerk@valley-community-council.wales.

ATODIAD B

Telerau ac Amodau Rhoddion

1. Rhaid defnyddio'r cyllid er budd y gymuned neu ei thrigolion, a rhaid i'r gwariant fod yn gymesur â'r budd a geir.

2. Rhaid i ymgeiswyr geisio sicrhau gwerth da am arian ym mhob gwariant a chael dyfynbrisiau cystadleuol lle bo hynny'n bosibl.

3. Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr yw sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a statudol sy'n berthnasol i'r gweithgaredd neu'r prosiect, a bod ganddynt unrhyw yswiriant angenrheidiol ar waith.

4. Rhaid defnyddio'r rhodd at y diben a nodwyd yn y cais yn unig. Fel arall, rhaid dychwelyd y swm i'r Cyngor, oni bai bod caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw wedi'i roi gan y Cyngor i ddefnyddio'r arian at ddiben arall.

5. Cyfrifoldeb y derbynnydd fydd gweinyddu a chadw cyfrifon ar gyfer unrhyw rodd. Rhaid cyfrif am bob rhodd yn briodol, a dylid cadw tystiolaeth o wariant a'i darparu i'r Cyngor os gofynnir amdani.

6. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ofyn am ad-dalu unrhyw rodd os nad yw'r cais neu'r defnydd o'r cyllid yn cydymffurfio â'r amodau a dderbyniwyd wrth ddyfarnu'r rhodd.

7. Gall methu â chadw at delerau ac amodau rhoddion y Cyngor effeithio ar lwyddiant ceisiadau am gyllid yn y dyfodol.

8. Os dyfernir rhodd, dim ond ar ôl derbyn ffurflen dderbyn y rhodd (Atodiad C), sy'n cadarnhau bod telerau ac amodau'r Cyngor wedi'u derbyn, y bydd taliad yn cael ei wneud.

9. Bydd taliad yn cael ei wneud i'r sefydliad drwy siec neu drosglwyddiad banc, ac nid i unigolyn.

10. Os bydd y sefydliad yn dod i ben yn ystod cyfnod y rhodd, gall y Cyngor ofyn am ad-dalu'r cyfan neu ran o'r arian.

11. Rhaid i sefydliadau gysylltu â'r Cyngor cyn gwaredu unrhyw offer neu adnoddau a brynwyd, neu a ariannwyd yn rhannol, drwy gyllid rhodd gan y Cyngor.

12. Rhaid cydnabod y cymorth ariannol a dderbyniwyd gan y Cyngor ar ddogfennau, deunydd hyrwyddo ac unrhyw gyfryngau neu gyhoeddiadau perthnasol.

ATODIAD C

Ffurflen Derbyn Rhodd

Rwyf/rydym yn derbyn y cynnig o £..... , dyddiedig ..... a ddyfarnwyd i .....

.....gan Gyngor Cymuned Y Fali mewn perthynas â:

.....

Rwyf/rydym yn datgan ein bod wedi ein hawdurdodi i weithredu ar ran yr ymgeisydd, ...

..... ac yn cytuno i dderbyn y telerau a'r amodau sy'n berthnasol i'r dyfarniad hwn.

Llofnod: .....

Swydd: .....

Dyddiad: .....

ATODIAD D

Canllawiau i Ymgeiswyr

1. Mae'r nodyn canllaw hwn wedi'i baratoi i helpu sefydliadau sy'n ystyried gwneud cais i Gyngor Cymuned y Fali am rodd. Mae'n rhan o Bolisi Rhoddion y Cyngor. Mae copi o'r polisi ar gael gan y Clerc ar gais neu gellir ei lawrlwytho o wefan y Cyngor.

2. Gall y Cyngor, yn ôl ei ddisgresiwn, ddyfarnu rhoddion i sefydliadau a gweithgareddau cymunedol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at fywyd a lles rhai neu holl drigolion y gymuned. Er enghraifft:

   - Darparu gwasanaeth
   - Gwella ansawdd bywyd
   - Gwella cyfleoedd hamdden a/neu chwaraeon
   - Gwella'r amgylchedd
   - Hyrwyddo'r Gymraeg, treftadaeth a diwylliant
   - Hyrwyddo'r gymuned mewn ffordd gadarnhaol
   - Hyrwyddo iechyd a llesiant

3. I fod yn gymwys am rodd, rhaid i'r ymgeisydd allu dangos:

   - Bod angen ariannu'r gweithgaredd neu'r prosiect.
   - Y bydd y cyllid o fudd i'r gymuned neu i drigolion y gymuned.
   - Nad yw'r sefydliad yn gwahaniaethu ar sail hil, rhyw, anabledd, oedran (ac eithrio lle mae hynny'n briodol, megis aelodaeth clwb ieuenctid), nac ar sail credoau gwleidyddol neu grefyddol.

4. Mae enghreifftiau o weithgareddau neu wariant a all fod o fudd i'r gymuned yn cynnwys:

   - Prynu offer neu gyfarpar.
   - Darparu cludiant er mwyn galluogi aelodau grŵp i gymryd rhan mewn taith neu weithgaredd.
   - Trefnu hyfforddiant neu dalu am wasanaethau hyfforddwr, tiwtor neu hwylusydd allanol.
   - Cynorthwyo gyda chostau rhedeg grŵp hyfyw sy'n wynebu cyfnod dros dro o anawsterau ariannol.
   - Trefnu digwyddiadau neu ddathliadau arbennig.
   - Darparu cyfleusterau hamdden.
   - Darparu meinciau, planwyr, planhigion neu ddodrefn stryd eraill.

5. Ni fydd y Cyngor yn ariannu'r mathau canlynol o sefydliadau neu weithgareddau:

   - Unigolion preifat.
   - Pleidiau gwleidyddol.
   - Sefydliadau crefyddol, oni bai y gellir dangos yn glir bod budd i'r gymuned waeth beth fo credoau crefyddol.
   - Sefydliadau cenedlaethol, oni bai y gellir dangos y bydd y cyllid o fudd sylweddol i drigolion y gymuned.
   - Ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol lle gellir dangos yn glir bod y gweithgaredd yn un brys na ellid bod wedi'i ragweld.
   - Dibenion lle mae dyletswydd statudol ar awdurdod lleol arall neu adran o'r llywodraeth i ddarparu neu ariannu'r gwasanaeth.
   - Ceisiadau sy'n fwy na'r uchafswm rhodd unigol a bennir bob blwyddyn (fel arfer £75), oni bai y gellir dangos yn glir bod angen cyllid ychwanegol a bod y buddion yn gymesur â'r gost ychwanegol.
   - Ceisiadau ôl-weithredol (am gostau sydd eisoes wedi'u hysgwyddo).

6. Dylid nodi nad yw'r rhestr hon yn gyflawn o reidrwydd, ac mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gais y mae'n ei ystyried yn amhriodol neu'n groes i amcanion y Cyngor.

7. Dim ond un cais gan bob sefydliad a ganiateir ym mhob blwyddyn ariannol.

8. Rhaid cyflwyno pob cais gan ddefnyddio'r ffurflen gais ynghlwm, wedi'i chwblhau mewn inc du neu'n electronig.

9. Os oes angen cymorth arnoch i gwblhau'r ffurflen gais neu i gyflwyno'r wybodaeth ategol, cysylltwch â'r Clerc ar:

    Cyngor Cymuned Y Fali
    d/o 10 Gorffwysfa
    Lon Fain
    Dwyran
    Ynys Mon
    LL61 6YJ

    E-bost: clerk@valley-community-council.wales

10. **Gwnewch yn siŵr eich bod yn llofnodi'r datganiad ar ddiwedd y ffurflen gais. Dylai hwn gael ei lofnodi gan rywun sydd wedi'i awdurdodi i weithredu ar ran y sefydliad ac sydd, drwy lofnodi, yn derbyn cyfrifoldeb am gywirdeb yr wybodaeth a ddarperir.**

11. Dylid dychwelyd ffurflenni cais wedi'u cwblhau at y Clerc drwy'r post neu drwy e-bost.

12. Sylwch fod yn rhaid dychwelyd pob cais erbyn y dyddiad cau a nodir ar y ffurflen gais. Fel arfer, bydd hyn yn 1 Ionawr bob blwyddyn er mwyn i geisiadau am gyllid gael eu hystyried fel rhan o broses bennu cyllideb y flwyddyn ganlynol. Felly, dylai ceisiadau a gyflwynir mewn un flwyddyn ariannol ymwneud â gweithgareddau neu brosiectau sydd i ddechrau yn y flwyddyn ariannol ganlynol, hynny yw ar ôl 31 Mawrth.

    Gwnewch yn siŵr bod eich cais yn nodi dyddiad dechrau disgwyliedig y prosiect neu'r gweithgaredd.

    Dylid nodi hefyd, os bydd gweithgaredd yn cael ei ailadrodd mewn blynyddoedd dilynol, bod yn rhaid cyflwyno cais newydd. Mae dyfarniadau rhoddion yn berthnasol i un flwyddyn yn unig, ac nid yw cais llwyddiannus mewn un flwyddyn yn gwarantu y bydd rhodd yn cael ei dyfarnu ar gyfer yr un gweithgaredd yn y flwyddyn ganlynol.

13. I gefnogi eich cais, dylech hefyd ddarparu:

    - Copi o gyfansoddiad eich sefydliad.
    - Copi o'ch datganiad(au) banc diweddaraf sy'n dangos gweddill eich cyfrif(on).
    - Manylion pwy y dylid gwneud unrhyw daliad yn daladwy iddo, a'r cyfeiriad y dylid anfon y taliad iddo os bydd eich cais yn llwyddiannus.

14. Os nad yw unrhyw un o'r dogfennau neu'r wybodaeth uchod ar gael, nodwch y rheswm ar y ffurflen gais. Os yw eich sefydliad newydd ei ffurfio, dylech gynnwys copi o'ch cyllideb a'ch cynllun busnes.

15. Mae croeso i chi gyflwyno unrhyw wybodaeth ychwanegol y credwch ei bod yn berthnasol i gefnogi eich cais.

16. Dylid nodi y gall y Cyngor ofyn am wybodaeth ychwanegol er mwyn ystyried neu flaenoriaethu cais yn llawn. Gall ymgeiswyr hefyd gael eu gwahodd i gyfarfod â'r Cyngor llawn i drafod eu cais ymhellach cyn i benderfyniad gael ei wneud.

17. Gall methiant i ddarparu'r wybodaeth y mae'r Cyngor wedi gofyn amdani effeithio ar lwyddiant eich cais.

18. Dylid nodi bod penderfyniad y Cyngor ar bob cais yn derfynol ac nad oes hawl i apelio.

19. Bydd unrhyw rodd a gymeradwyir gan Gyngor Cymuned y Fali yn ddarostyngedig i dderbyn y telerau a'r amodau perthnasol. Rhaid derbyn datganiad wedi'i lofnodi gan swyddog awdurdodedig y sefydliad sy'n cadarnhau ei fod yn cytuno i'r telerau a'r amodau hyn cyn y gellir gwneud taliad.

20. Y telerau a'r amodau a fydd fel arfer yn berthnasol yw:

    - Rhaid defnyddio'r cyllid er budd y gymuned neu ei thrigolion, a rhaid i'r gwariant fod yn gymesur â'r budd a geir.
    - Rhaid i ymgeiswyr geisio sicrhau gwerth da am arian ym mhob gwariant a chael dyfynbrisiau cystadleuol lle bo hynny'n bosibl.
    - Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr yw sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a statudol sy'n berthnasol i'r gweithgaredd neu'r prosiect, a bod ganddynt unrhyw yswiriant angenrheidiol ar waith.
    - Rhaid defnyddio'r rhodd at y diben a nodwyd yn y cais yn unig. Fel arall, rhaid dychwelyd yr arian i'r Cyngor, oni bai bod caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw wedi'i roi gan y Cyngor i ddefnyddio'r arian at ddiben arall.
    - Cyfrifoldeb y derbynnydd fydd gweinyddu a chadw cyfrifon ar gyfer unrhyw rodd. Rhaid cyfrif am bob rhodd yn briodol, a dylid cadw tystiolaeth o wariant a'i darparu i'r Cyngor os gofynnir amdani.
    - Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ofyn am ad-dalu unrhyw rodd os nad yw'r ymgeisydd neu'r defnydd o'r cyllid yn cydymffurfio â'r amodau a dderbyniwyd wrth ddyfarnu'r rhodd.
    - Gall methu â chadw at delerau ac amodau rhoddion y Cyngor effeithio ar lwyddiant ceisiadau am gyllid yn y dyfodol.
    - Os dyfernir rhodd, dim ond ar ôl derbyn ffurflen dderbyn rhodd sy'n cadarnhau derbyn telerau ac amodau'r Cyngor y bydd taliad yn cael ei wneud.
    - Bydd taliad yn cael ei wneud i'r sefydliad, ac nid i unigolyn.
    - Os bydd y sefydliad yn dod i ben yn ystod cyfnod y rhodd, gall y Cyngor ofyn am ad-dalu'r cyfan neu ran o'r arian.
    - Rhaid i sefydliadau gysylltu â'r Cyngor cyn gwaredu unrhyw offer neu adnoddau a brynwyd, neu a ariannwyd yn rhannol, drwy gyllid gan y Cyngor.
    - Rhaid cydnabod y cymorth ariannol a dderbyniwyd gan y Cyngor ar ddogfennau, deunydd hyrwyddo ac unrhyw gyhoeddiadau neu gyfryngau perthnasol.
    - Dylid nodi bod y Cyngor yn cadw'r hawl i osod amodau neu ofynion ychwanegol ar unrhyw rodd os yw'n ystyried hynny'n briodol.

Bydd Cyngor Cymuned y Fali yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan ymgeiswyr at ddibenion gweinyddu'r cynllun rhoddion yn unig. Cedwir yr wybodaeth yn unol â Pholisi Cadw a Gwaredu Cofnodion y Cyngor ac unrhyw ofynion cyfreithiol perthnasol.

ATODIAD E

Matrics Gwerthuso

Cyngor Cymuned Y Fali

Matrics Gwerthuso Rhoddion

Dyddiad Gwerthuso: _____

1. Sefydliad:			
Dyddiad derbyn:			
A yw hwn yn gais ôl-weithredol?	☐YDI ☐NAC YDI	Ydi = Gwrthod y cais.	
A yw'r ffurflen gais wedi'i chwblhau, neu a yw'r llythyr yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen?	☐YDI ☐NAC YDI	Nac Ydi = Gwrthod y cais a'i ddychwelyd i'w gwblhau.	
2. Manylion y Sefydliad - a yw'r sefydliad yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd?	☐YDI ☐NAC YDI	A yw'r sefydliad wedi'i gyfansoddi'n briodol a'i reoli'n dda?	☐YDI ☐NAC YDI
3. Manylion Ariannol			
A dderbyniwyd copi o'r datganiad banc diweddaraf?	☐DO ☐NADDO		
4. Gweithgareddau			
A yw gweithgareddau'r sefydliad yn cyd-fynd ag amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor?	☐YDI ☐NAC YDI	A yw'r prosiect yn bodloni meini prawf y polisi?	☐YDI ☐NAC YDI
A oes gan y Cyngor bŵer statudol i ddarparu'r cyllid hwn? ☐OES ☐NAC OES Pŵer: _____	**Dim ond pan fo ganddo bŵer statudol i wneud hynny y gall y Cyngor roi rhodd. Gall hyn gynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i, Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n caniatáu gwariant pan fo hynny er budd ardal y Cyngor, neu ran ohoni, neu ei thrigolion, ac yn dod â budd uniongyrchol iddynt.**		

	Budd i'r gymuned a nifer sylweddol o drigolion neu'r gymuned gyfan	Cyfanswm cost y prosiect	A yw'r costau'n briodol ac yn realistig?	Pa mor effeithiol fydd y grŵp yn defnyddio'r rhodd?	Pa lefel o gyfraniadau lleol neu gyllid arall sydd wedi'u sicrhau?	A ellid yn rhesymol ddisgwyl i'r ymgeisydd gael cyllid digonol o ffynhonnell fwy addas?	A yw'r cais yn cyd-fynd ag amcanion y Cyngor ac o fewn pwerau'r Cyngor?
Sefydliad cenedlaethol							
Grŵp lleol newydd ei sefydlu							
Grŵp lleol sefydledig							
Arall, nodwch							

Argymhelliad y Clerc: ☐ **Cymeradwyo** ☐ **Gwrthod**

Dyddiad Cyfarfod y Cyngor: _____

Cyfeirnod Penderfyniad y Cyngor: _____